14.01.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Mae hwyl i gael mewn Hewlfa Drysor!

Beth gewch chi wrth gymysgu tri llond car o bobl siaradus, cyfres o gwestiynau, cyfleoedd i ennill trysorau a Lisa Angharad a'r Welsh Whisperer? Ie, cyfres newydd o **Hewlfa Drysor**!

Cawn deithio ar hyd lonydd ardaloedd Cymru gyfan gan ddysgu ychydig o hanes lleol wrth i griw o gystadleuwyr fynd ati i gwblhau **Hewlfa Drysor**.

Gyda Lisa Angharad a Welsh Whisperer yn cyflwyno, mae digon o hwyl i gael wrth i ni ddod i nabod Cymru'n well yng nghwmni criw o drigolion cystadleuol.

Mae'r ddau wedi bod yn brysur yn dyfeisio cwestiynau penodol i bob ardal fydd yn siŵr o achosi digon o ddadlau ar hyd y daith. Yn ogystal ag ateb cwestiynau, bydd trysorau ar y daith yn cynnig cyfle i ennill pwyntiau bonws i'r cystadleuwyr.

Meddai'r Welsh Whisperer:

"Mae'r gyfres yma yn unigryw oherwydd does dim sgript gyda'r helwyr trysor, maen nhw'n cael eu cwestiynau ac yna yn gorfod cwblhau'r cwrs trwy ateb y cwestiynau yn gywir...ond mae hwnna yn haws dweud na gwneud!

"Mae'n ddiddorol yn arbennig i'r gwylwyr sy'n nabod yr ardaloedd oherwydd rwy'n siŵr bydd nifer yn gwybod yr atebion yn well na rhai o'r timau ac felly yn gweiddi ar y teledu, sydd wastad yn dda!"

Yn y rhaglen hon, rydym ym Mrynaman, pentref wrth droed y Mynydd Du ar gyfer yr **Hewlfa Drysor**. Mae'r cwrs cylch yma yn 24 milltir o hyd ac mi ddylai'r hewlfa gymryd tuag awr i'w gwblhau. 3 car, 3 thîm a £500 - pwy fydd yn cipio'r wobr y tro yma?

Y timau sy'n tarfu ar lonyddwch Brynaman y tro hwn yw Tîm Buddies Barry Road sef dau gwpwl sy'n byw ar yr un stryd, Tîm y Cigyddion Direidus, y teulu brwdfrydig a chystadleuol, a Thîm Coco, teulu ifanc sydd wedi'i enwi eu tîm ar ôl eu ci bach!

Bydd pob tîm mewn car, gyda chamerâu ym mhob ongl a chamerâu 360 gradd ar ben y ceir, sy'n dal popeth, "a dwi'n meddwl popeth" yn ôl y Welsh Whisperer!

Mae cwestiynau'r hewlfa i fod i yrru'r teithwyr i'r cyfeiriad cywir, ond bydd angen llygaid barcud ar yr un pryd er mwyn peidio â methu ambell i drysor ar hyd y ffordd.

Ond nid cwestiynau am wybodaeth leol yw popeth am yr hewlfa unigryw hon – mae hefyd cyfleoedd o gwmpas y cwrs i ennill trysorau hollbwysig. Mae'r cystadleuwyr yn gorfod rasio berfa llawn dŵr o gwmpas y trac heb i'r dŵr fynd o dan y linell wen, ateb cwestiwn gan Shane

Williams ar y cae rygbi, arwain pêl fach arian o un cornel y bwrdd i'r llall heb iddo gwympo trwy'r tyllau a cheisio perfformio dawns arbennig o Rwsia!

Yn ôl Welsh Whisperer, ei uchafbwynt ym mhob rhaglen yw gweld y timau "yn methu atebion hollol amlwg ac weithiau'n teithio milltiroedd i ffwrdd o'r cwrs, ond yn meddwl eu bod nhw'n gywir! Mae'r cwympo mas rhwng y seddi blaen a'r cefn yn rhywbeth mae pawb wedi profi rhywbryd yn eu bywydau rwy'n siŵr."

Roedd hefyd yn brofiad gwych cael teithio Cymru a chyfarfod pobl ddiddorol o bob ardal:

"Mae bob tro'n bleser cael mynd i ardaloedd gwahanol ac mae profi dealltwriaeth y cystadleuwyr o'u hardaloedd nhw yn bleser, dwi wedi dysgu llawer iawn fy hun!"

Felly, dyma gyfle i'r teulu oll ymuno yn y daith a phrofi eich gwybodaeth am wahanol ardaloedd yng Nghymru gan fwynhau golygfeydd godidog, dysgu ambell beth ar y ffordd a gweld ambell wyneb cyfarwydd hefyd.

Mae'r gyfres hefyd yn teithio i Langernyw ac mae rhaglenni cyntaf y gyfres sef Chwilog, Llanerfyl a Llangrannog ar gael ar alw.

Hewlfa Drysor
Nos Wener 29 Ionawr, 9.00
Isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gael
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Avanti ar gyfer S4C

14.01.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

There's fun to be had in a treasure trail!

What do you get when you mix three cars of talkative people, a series of questions, chances to win treasures and Lisa Angharad and the Welsh Whisperer? Yes, a new series of **Hewlfa Drysor** (Treasure Trail)!

We travel the lanes of Wales and learn a bit of local history as a group of competitors try to complete the **Hewlfa Drysor**.

With Lisa Angharad and the Welsh Whisperer presenting, there's plenty of fun to be had as we get to know Wales better with a bunch of competitive residents.

Both presenters have been busy devising specific questions for each area that will surely cause plenty of controversy along the way. As well as answering questions, treasures on the trail will offer competitors the opportunity to earn bonus points.

The Welsh Whisperer said:

"This series is unique because the treasure hunters don't have a script, they get their questions and then have to complete the course by answering the questions correctly...but that's easier said than done!

"It's particularly interesting for viewers who know the areas because I'm sure many will know the answers better than some of the teams and will be shouting at the TV, which is always good!"

In this programme, we are in Brynaman, a village at the foot of the Black Mountains, for the treasure trail. This circular course is 24 miles long and should take about an hour to complete. Three cars, three teams and £500 - who will win the prize?

The teams that are disturbing the tranquillity of Brynaman this time are the Barry Road Buddies Team, two couples who live on the same street, the Mischievous Butchers Team, a keen and competitive family and Team Coco, a young family with a team named after their dog!

All teams will be in a car, with cameras at every angle and 360-degree cameras on top of the cars, which capture everything, "and I mean everything" according to the Welsh Whisperer!

The trail's questions are supposed to drive the passengers in the right direction, but at the same time they will need to keep a look out for some treasures along the way.

But it's not just local knowledge that's needed in this unique trail - there are also opportunities around the course to gain vital treasures. Competitors need to race a wheelbarrow full of water around a track without the water going under the white line, answer a question from Shane Williams on the rugby pitch, lead a small silver ball from one corner of a table to the other without it falling through the holes and try to perform a special dance from Russia!

According to the Welsh Whisperer, his highlight in every programme is seeing teams "missing obvious answers and sometimes traveling miles away from the course, but thinking they were right! The falling out between the front and back seats is something everyone has probably experienced at some point in their lives."

It was also a great experience travelling Wales and meeting interesting people from all areas:

"It is always a pleasure to go to different areas and to see the competitors' understanding of their own areas, and I've learned a great deal myself!"

This is an opportunity for the whole family to join in the trail at home and test your knowledge of different parts of Wales while enjoying spectacular scenery, learning new things along the way and see some familiar faces, too.

The series also travels to Llangernyw and the first programmes in the series Chwilog, Llanerfyl and Llangrannog, are available on demand.

Hewlfa Drysor
Friday 29 January, 9.00pm
Welsh and English subtitles available
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
An Avanti production for S4C